BTPA
British Transport Police Authority

HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

Cynllun Plismona
Sector Cymru



12/13

Cynnwys

Rhagair gan Gadeirydd y BTPA	01
Rhagair gan Brif Gwnstabl y BTP	02
Targedau cenedlaethol	03
Sylwadau gan Gomander Rhanbarthol	07
Targedau ardal	09

Rhagair

Millie Banerjee
Cadeirydd, Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain

Wedi nifer o flynyddoedd o waith caled a disgwyliad, mae'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd ar gychwyn. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi buddsoddi cryn dipyn o waith ac amser yn y paratoadau, gyda tharged cynllun plismona Olympaidd eleni – i ddarparu ymateb cyflymach i alwadau gan leoliadau Olympaidd a chyfnewidfeydd cludiant allweddol – yn ein helpu i chwarae ein rhan yn sicrhau fod athletwyr, trefnwyr a gwylwyr oll yn gallu teithio'n ddiogel i ac o'r Gemau. Rwy'n sicr y bydd ein swyddogion a staff yn ysgogi balchder wrth iddynt gyflawni'r gweithrediadau plismona mwyaf yn hanes Prydain.

Wrth gwrs, gyda sylw 2012 yn canolbwyntio ar beth y disgwyliwn i fod yn ŵyl aruthrol o chwaraeon, efallai y bydd cymuned y rheilffyrdd yn pryderu y bydd y BTP yn colli gafael ar y gwaith dydd i ddydd o ddarparu gwasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon i'r rhwydwaith rheilffyrdd cyfan a'r holl deithwyr sy'n defnyddio'r rheilffyrdd. Fel y gwelwch o'r cynllun plismona hwn, ein ffocws yw sicrhau fod yr heddlu yn cyflawni ei waith fel arfer yn ystod y gemau Olympaidd a thu hwnt.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe welsom leihad pellach mewn troseddau ar y rheilffyrdd a gwelliant mewn cyfraddau darganfod. Gobeithiwn adeiladu ar hynny eto yn 2012/13.

Rydym wedi diwygio ein hamcanion strategol, a fydd eleni i:

1. **Helpu cadw systemau cludiant rheilffordd yn rhedeg**
2. **Helpu gwneud systemau cludiant rheilffordd yn fwy diogel a saff**
3. **Cyflawni gwerth am arian trwy welliannau parhaus**
4. **Hyrwyddo hyder yn y defnydd o systemau cludiant rheilffordd**

Datblygwyd yr amcanion hyn trwy ymgynghoriad agos gyda diwydiant y rheilffyrdd a grwpiau teithwyr. Cynhaliodd Awdurdod yr Heddlu weithdy cynllunio llwyddiannus ym Medi 2011 ble cynrychiolwyd teithwyr a nifer o gwmnïau trenau a chludo nwyddau. Roedd y drafodaeth yn y gweithdy yn ddefnyddiol i nodi'r materion pwysicaf i'r BTP ganolbwyntio arnynt yn 2012/13.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae bron ein holl bartneriaid yn y diwydiant rheilffyrdd wedi bod yn gofyn i'r BTP chwarae mwy o rôl yn eu helpu i leihau amhariad i wasanaethau trên. Cyflawnom rywfaint o waith rhagarweiniol yn 2011/12 yn archwilio sut y gall yr heddlu a gweithredwyr gydweithio i ddelio â'r mater mewn gwahanol rannau o'r wlad. Mae'n dda gennyf adrodd ein bod, wedi cydweithio'n agos gyda Network Rail a gweithredwyr y rheilffyrdd, wedi gosod targedau cenedlaethol a lleol eleni yn ymwneud â lleihau amhariaeth i'r BTP.

Mae hyn yn gam pwysig: rydym yn cynyddu cynhwysiant yr heddlu mewn mentrau ar y cyd i ddelio â mater sy'n achosi cryn anghyfleustra i deithwyr ac sydd â chost i weithredwyr y rheilffyrdd. Rydym yn cynnig gweithio'n agos a chreadigol gyda'n partneriaid nid yn unig i atal amhariad ond, pan fydd yn digwydd, i leihau ei effaith mewn nifer o leoliadau allweddol ledled rhwydwaith y rheilffyrdd. Mae hyn yn gyfres arloesol o dargedau cenedlaethol a lleol, a bydd Awdurdod yr Heddlu yn monitro eu cynnydd yn agos.

Mater arall sy'n bwysig i deithwyr a gweithredwyr y rheilffyrdd yw cost gweithredu'r BTP. Yn Rhagfyr, cytunodd Awdurdod yr Heddlu i osod cyllideb net o £198.8 miliwn ar gyfer 2012/13, sydd heb newid ar y sefyllfa ar gyllideb y flwyddyn flaenorol. Mae'n gyllideb sy'n cynrychioli lleihad mewn termau real, o ystyried y cynnydd diweddar mewn chwyddiant a'r gofyniad i'r BTP dalu TAW, yn wahanol i heddluoedd eraill. Wrth wneud y penderfyniad cyllid anodd hwn, rydym yn alinio ein hunan gyda'n partneriaid yn y diwydiant, sydd hefyd yn wynebu cryn bwysau ariannol.

> Fel y gwelwch o'r cynllun plismona hwn, ein ffocws yw sicrhau fod yr heddlu yn cyflawni ei waith fel arfer yn ystod y gemau Olympaidd a thu hwnt.

Rwy'n ymroddedig i sicrhau fod y BTP yn parhau gyda'i duedd o welliannau parhaus yn yr hinsawdd ariannol hon, a dyma pam bod ein trydydd nod strategol yn ein hymrwymo i fwy o werth am arian. Mae'r duedd hyd yn hyn wedi bod yn dda, gyda'r heddlu yn cymryd camau sylweddol tuag at wella effeithlonrwydd ei weithredoedd, ac Awdurdod yr Heddlu wedi gosod tri tharged yn y cynllun hwn i adeiladu ar hynny: ar gyfer y flwyddyn i ddod, rydym wedi gofyn i'r BTP gwtogi ei gostau swyddfa o £500,000, i leihau'r nifer o adroddiadau mae'n cynhyrchu â llaw o un pumed, a chwtogi ymhellach ar ei lefelau salwch. Bydd y rhain yn cyd-fynd â'r ailstrwythuro creadigol sydd eisoes ar waith yn yr heddlu ac yn creu gwell gwerth i gymuned y rheilffyrdd.

Ein nod flaenaf, fel arfer, yw darparu rheilffordd effeithiol ac effeithlon. Rwy'n gwbl hyderus y bydd y BTP yn llwyddo yn hyn o beth.

Rhagair

Andrew Trotter
Prif Gwnstabl, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Bydd 2012/13 yn flwyddyn wirioneddol hanesyddol a'r prawf mwyaf i wasanaeth yr heddlu ym Mhrydain ei wynebu erioed. Mae pawb yn BTP yn barod ac awyddus i chwarae rhan mewn gwneud Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 yn llwyddiant cenedlaethol.

Mae'r Gemau wedi eu cyflwyno fel y Gemau Olympaidd trafnidiaeth gyhoeddus cyntaf, gan ddisgwyl y bydd 80% o'r gwylwyr yn defnyddio'r system reilffordd i gael mynediad, felly bydd ein rôl yn elfen allweddol yn y llwyddiant hwnnw. Credaf ein bod yn barod, wedi cynllunio'n ofalus gyda'n partneriaid yng ngwasanaeth yr heddlu a'r diwydiant trafnidiaeth. Fodd bynnag, ni ddylem danbrisio'r her a bydd rhaid i ni fod ar ein gorau yn ystod y gweithgareddau hyn.

Mae ein cynllun gweithredol Olympaidd yn cwmpasu cyfnod o 64 niwrnod a bydd yn rhoi cryn bwysau ar adnoddau, hyd yn oed gyda'r cymorth sylweddol y byddwn yn derbyn gan heddluoedd ledled y wlad. Ond er mor fawr, dim ond un mewn cyfres o ddigwyddiadau mewn blwyddyn brysur iawn yw'r Gemau Olympaidd.

Trwy gydol y flwyddyn heriol hon, bydd yn bwysig peidio colli ffocws ar ein busnes craidd – cadw pobl yn ddiogel a lleihau amhariad i'n rhwydweithiau rheilffordd. Bydd y cynllun plismona hwn yn ein helpu i gadw'r ffocws hwnnw, gan ganolbwyntio ein hadnoddau ar y materion y mae teithwyr rheilffordd, staff a'r diwydiant rheilffordd wedi dweud wrthym sydd bwysicaf i iddynt.

Yn uchel ar yr agenda mae dwyn metel, sydd wedi bod yn broblem gynyddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Rydym wedi cyflawni cryn lwyddiant, ond mae hyd yn oed niferoedd bychan o droseddau yn arwain at lefelau uchel o amhariad.

Mae'r ffactor amhariad yn elfen bwysig wrth gynllunio sut ydym yn taclo nid yn unig troseddau, ond y nifer o wahanol fathau o ddigwyddiadau, er enghraifft delio â marwolaethau ar y rhwydwaith. Mae gan BTP y cyfle i wneud effaith uniongyrchol a phositif ar deithiau pobl, trwy wella a mireinio ein hymateb i'r digwyddiadau hyn.

Fel gwasanaeth heddlu, rydym yn ymroddedig i leihau'r nifer o ddioddefwyr troseddau yn ogystal â gwella profiad teithio i'r mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr rheilffyrdd, na fydd fyth yn ddioddefwyr troseddau. Mae targedau i leihau troseddu yn gyffredinol a chanolbwyntio ar yr ardaloedd sy'n cael effaith arbennig ar bobl – trais, troseddau rhyw a lladrata – yn un ffordd o gyflawni hynny.

Gwyddom nad troseddu yw'r unig beth sy'n dychryn pobl ac yn eu hatal rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, mae yna hefyd ymddygiad gwrthgymdeithasol, meddwdod, rhegi a'r bygythiad o drais sy'n achosi cryn ofid. Byddwn yn weladwy ac ar gael pan fydd y cyhoedd angen ein hamddiffyniad.

Bydd cynyddu ein gweledigaeth trwy ganolbwyntio adnoddau ar blismona cymdogaeth proffil uchel, lleihau lefelau salwch, gwneud y gorau o gwnstabliaid arbennig sy'n rhoi eu hamser i ni am ddim, a lleihau biwrocratiaeth hefyd yn rhoi hyder i'r rhai sy'n gweithio ar ac yn defnyddio rhwydwaith y rheilffyrdd.

Mae'r cynllun plismona yn cefnogi ein cynllun strategol, bellach yn ei ail flwyddyn, sydd â'r amcanion o:

1. **Helpu cadw systemau cludiant rheilffordd yn rhedeg**
2. **Helpu gwneud systemau cludiant rheilffordd yn fwy diogel a saff**
3. **Cyflawni gwerth am arian trwy welliannau parhaus**
4. **Hyrwyddo hyder yn y defnydd o systemau cludiant rheilffordd**

Lluniwyd y rhain yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus â'r diwydiant rheilffyrdd, staff y rheilffyrdd a grwpiau teithwyr, a bydd y targedau penodol a mesuradwy yn y cynllun plismona hwn yn helpu eu gwneud yn realiti.

Targedau cenedlaethol

Helpu cadw systemau cludiant rheilffordd yn rhedeg

Lleihau amhariad

Lleihau munudau a gollwyd mewn 36 o leoliadau trwy gynlluniau datrys problemau ar y cyd a gytunwyd gyda Network Rail a gweithredwyr trenau eraill

Mae lleihau amhariad yn brif flaenoriaeth, ac yn arbennig o bwysig yn 2012/13 wrth i ni ddynesu at, ac yn ystod, y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd. Mewn ymgynghoriad â phartneriaid, mae pob Ardal BTP uwchddaearol wedi dewis chwe lleoliad allweddol ar y rhwydwaith ble bydd atal amhariad yn fwyaf buddiol.

Amserau ymateb

Lleihau amhariad trwy ymateb i o leiaf 95% o ddigwyddiadau uniongyrchol o fewn 10 munud ar gyfer y pum Parth Olympaidd

Mae cefnogi ein partneriaid yn narpariaeth ddiogel, saff a dibynadwy gwasanaethau trafnidiaeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 yn flaenoriaeth. Mae ymateb buan i ddigwyddiadau yn allweddol i sicrhau ein bod yn osgoi amhariad posibl. Mae'r targed hwn yn cwmpasu cyfnodau'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd gydag ôl troed sy'n cynnwys pum Parth Gemau Llundain 2012 LOCOG, gyda holl leoliadau Llundain, gorsafoedd allweddol, yn ogystal â'r traciau a seilwaith sy'n eu gwasanaethu.

Troseddau ceblau

Lleihau troseddau ceblau byw o lefel 2011/12

Mae lladrad ceblau yn broblem helaeth ledled y Deyrnas Unedig, ac yn arbennig ar gyfer y rheilffyrdd ble gall lladrad hyd yn oed y nifer lleiaf o geblau byw achosi amhariad sylweddol. Er bod lladrad ceblau byw ar y rheilffyrdd wedi gostwng o 24% eleni (ac i ddarganfyddiadau gynyddu o 53%), mae BTP yn ymroddedig i weithio mewn partneriaeth â'r diwydiant rheilffyrdd i leihau'r math yma o droseddau a'r amhariad mae'n achosi.

Marwolaethau

Marwolaethau nad ydynt yn amheus i gael eu clirio o fewn cyfartaledd o 90 munud

Bob blwyddyn, mae'r BTP yn delio â thua 200 o farwolaethau nad ydynt yn amheus ar y rheilffordd. Mae gallu'r BTP i reoli'r digwyddiadauhyn yn drylwyr a dychwelyd y rhwydwaith yn ôl i'w gyflwr arferol yn rhan bwysig o'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu. Trwy gydol 2012/13, bydd y BTP yn cyflawni adolygiad gwraidd a bôn o'i ymagwedd tuag at reolaeth marwolaethau a'r rhesymeg tu ôl i'w broses ddosbarthu. Byddwn yn monitro targed 'gysgodol' yn ymwneud â marwolaethau na ellir eu hesbonio trwy gydol y flwyddyn a chasglu a gweithredu arfer gorau.

Helpu gwneud systemau cludiant rheilffordd yn fwy diogel a saff

Troseddau hysbysadwy

Lleihau'r nifer o droseddau hysbysadwy (ac eithrio troseddau a grëwyd gan yr heddlu) o lefel 2011/12

Mae lleihau troseddau yn ganolog i weledigaeth y BTP ac, ynghyd â lleihau amhariad, fe'i nodir yn gyson gan randdeiliaid fel prif flaenoriaeth. Yn ystod y naw mlynedd diwethaf, mae'r BTP wedi lleihau troseddau hysbysadwy o 33%, gan sicrhau lleihad arwyddocaol mewn troseddau megis lladrata (i lawr 73%), dwyn eiddo teithwyr (i lawr 53%), a throseddau llwybr hysbysadwy (i lawr 71%). Eleni cafwyd lleihad pellach o 9% mewn troseddau cyffredinol. Er gwaethaf y gostyngiadau blwyddyn ar flwyddyn hyn, mae BTP yn parhau i fod yn ymroddedig i leihau troseddau ymhellach a sicrhau bod rhwydwaith y rheilffyrdd yn parhau i fod yn amgylchedd diogel.

Troseddau trais difrifol ac ymosodiadau ar staff

O leiaf cynnal y gyfradd ddarganfod ar gyfer troseddau trais, rhyw a lladrata difrifol ac ymosodiadau ar staff

Mae troseddau trais, rhywiol a lladrata ac ymosodiadau ar staff yn achosi niwed difrifol, yn aml yn cael effaith fawr ar ddioddefwyr ac yn tanseilio hyder teithwyr a staff. Mae BTP yn benderfynol eu bod am wneud troseddwyr yn atebol am y troseddau hyn, gan gynnal ffocws cenedlaethol ar droseddau sy'n cael effaith difrifol ar ddioddefwyr. Mae'r BTP wedi cynyddu ei gyfradd darganfyddiad o 33% yn 2002/03 i 52% yn 2011/12 ar gyfer y mathau hyn o droseddau, tra bod y nifer o droseddau a gyflawnwyd ar y rheilffyrdd wedi gostwng o 5,590 i 4,111.

Cyflawni gwerth am arian trwy welliannau parhaus

Salwch

Lleihau salwch cyffredinol o lefel 2011/12

Fel pob heddlu, mae costau staff yn atebol am y rhan fwyaf o gyllideb a gwariant y BTP. Mae argaeledd a chynhyrchiant uchel staff yn flaenoriaethau allweddol, ac yn fodd pwysig o sicrhau fod y BTP yn cyflawni gwasanaeth effeithiol, gwerth am arian i'w randdeiliaid. Bydd y targed hwn yn adeilad ar lwyddiant y BTP mewn lleihau salwch yn y blynyddoedd diwethaf, o 10.4 niwrnod y pen yn 2007/08 i 7.4 niwrnod y pen y llynedd.

Gwerth am arian

Cynyddu gwerth am arian trwy gael gwared ar o leiaf £500,000 o swyddogaethau Pencadlys Heddlu'r BTP i gwtogi costau swyddfa gefn

Yn ail flwyddyn yr Adolygiad Gwasanaethau Allweddol FHQ, mae BTP yn ymroddedig i gael gwared ar £500,000 arall o gostau swyddfa Pencadlys yr Heddlu, gan adeiladu ar yr £1.2miliwn a sicrhawyd yn ystod 2010/11. Mae'r adolygiad yn rhaglen pedair blynedd o leihau costau, i'w gyflawni trwy gyfuniad o ddinasyddu, arbedion staff (yn arbennig ar lefel rheolwyr), rhesymoli gweinyddu a gwella prosesau a gweithdrefnau swyddfa. Mae cyfanswm y gyllideb FHQ ar gyfer gwasanaethau sydd fel arfer wedi eu dosbarthu fel swyddfa gefn yn £26.2miliwn.

Lleihau biwrocratiaeth

Lleihau biwrocratiaeth trwy leihau'r nifer o adroddiadau perfformiad a gynhyrchir â llaw o 20% neu fwy

Bydd lleihau'r nifer o adroddiadau perfformiad a gynhyrchir â llaw yn sicrhau y defnyddir adnoddau perfformiad a dadansoddol y BTP mor effeithiol â phosibl, gan ddarparu gwybodaeth glir, gryno a chywir i randdeiliaid mewnol ac allanol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy offeryn adrodd awtomatig ar gyfer rhanddeiliaid allanol a phorth perfformiad canolog ar gyfer defnyddwyr mewnol. Bydd y targed hwn hefyd yn cydweddu ag amcan strategol y BTP i leihau biwrocratiaeth ledled yr heddlu.

Hyrwyddo hyder yn y defnydd o systemau cludiant rheilffordd

Plismona cymdogaeth

O leiaf cynnal y gyfran o adnoddau sy'n ymroddedig i Dimau Plismona Cymdogaeth a phlismona ymateb rhwng 8pm ac 1am (heb gynnwys cyfnod y Gemau Olympaidd)

Mae gweledeedd ac argaeledd Timau Plismona Cymdogaeth y BTP a thimau ymateb gyda'r nos ar rwydwaith y rheilffyrdd yn allweddol i sicrhau hyder teithwyr a staff. Mae'r targed hwn yn cyd-fynd â nod strategol y BTP i hyrwyddo hyder mewn defnydd o'r rheilffyrdd trwy sicrhau fod cymaint o swyddogion, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chwnstabliaid arbennig wedi eu lleoli mewn rolau sy'n weladwy i'r cyhoedd ar yr adegau ble mae fwyaf eu hangen.

Gweledeedd

Hyrwyddo hyder a gweledeedd trwy gynyddu cyfanswm yr oriau mae cwnstabliaid arbennig yn gweithio o 10%

Mae cwnstabliaid arbennig y BTP yn chwarae rhan bwysig mewn cefnogi swyddogion rheolaidd a darparu sicrwydd i gymuned y rheilffyrdd.Mae cynyddu cyfanswm oriau gwaith cwnstabliaid arbennig y BTP yn rhan bwysig o gynyddu gweledeedd y BTP a hyrwyddo hyder cynyddol rhanddeiliaid rheilffyrdd, yn arbennig gyda'r nos.

Sylwebaeth

Prif Uwcharolygydd Peter Davies
Comander Ardal Sector Cymru

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Sector Cymru wedi mwynhau gweithio mewn partneriaeth arbennig gyda chwmnïau gweithredu'r rheilffyrdd, Network Rail a Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi rhannu syniadau, herio ein gilydd ond wedi parhau i ganolbwyntio ar gyflawni rhwydwaith rheilffordd ddiogel i weithio a theithio yng Nghymru.

Rydym wedi cyflawni:

- Lleihad mewn troseddau a gofnodir gan wneud Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymru'r mwyaf diogel yn Ardal Cymru a'r Gorllewin
- Lleihad mewn ymosodiadau ar staff ac ymddygiad ymosodol tuag at staff yn golygu llai o ddioddefwyr troseddau yn y gweithle ar gyfer cwmnïau gweithredu trenau a Network Rail

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni lleihad pellach mewn troseddau a sicrhau bod ein swyddogion yr heddlu a swyddogion cefnogaeth cymunedol yr heddlu yn y lle iawn gan fod yn weladwy a hygyrch i'r gymuned.

Rydym wedi rhannu syniadau, herio ein gilydd ond wedi parhau i ganolbwyntio ar gyflawni rhwydwaith rheilffordd ddiogel i weithio a theithio yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni lleihad pellach mewn troseddau a sicrhau bod ein swyddogion yr heddlu a swyddogion cefnogaeth cymunedol yr heddlu yn y lle iawn...

Mae ein Timau Plismona Cymdogaeth yn ganolog i'n cymunedau yng Nghymoedd De Cymru a bydd hyn wedi ei hybu gyda chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 18 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu atodol ledled Cymru. Bydd yr adnoddau atodol yn ein helpu i wella'n hymateb i bryderon y gymuned, darparu swyddogion mwy gweladwy a lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Eleni rydym yn croesawu'r Gemau Olympaidd i Gaerdydd ble bydd Stadiwm y Mileniwm yn cynnal digwyddiad cyntaf y Gemau Olympaidd ac yna 11 niwrnod o gemau pêl droed. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Threnau Arriva Cymru, First Great Western, Network Rail a Heddlu De Cymru i sicrhau fod ein cynlluniau'n barod i gyflawni'r gwasanaeth plismona mwyaf effeithiol i bobl yn teithio i'r brifddinas.

Wrexham Central
Aberystwyth
Abergavenny
Swansea
Ton Pentre
Porth
Newport
Cardiff Central
Barry

Targedau ardal

Sector Cymru
2012/13

Ymosodiadau ar staff

Cyflawni cyfradd darganfod ar gyfer ymosodiadau ar staff o 62% neu fwy	Mae ymosodiadau ar staff wedi cael effaith sylweddol ar hyder staff rheilffordd. Y llynedd gostyngodd ymosodiadau ar staff yng Nghymru o 44% a bydd yr Ardal yn adeiladu ar y llwyddiant hwn yn 2012/13.

Amhariad

Lleihau'r nifer o drenau gohiriedig o 5% o'r lefel a gofnodwyd yn 2011/12	Bydd y targed hwn yn cefnogi amcan gyffredinol y BTP yn Sector Cymru ac fe'i cyflawnir trwy weithio mewn partneriaeth agos gyda gweithredwyr y trenau.

> "Mae ein Timau Plismona Cymdogaeth yn ganolog i'n cymunedau yng Nghymoedd De Cymru a bydd hyn wedi ei hybu gyda chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 18 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu atodol ledled Cymru."

Prif Uwcharolygydd Peter Davies
Comander Ardal Sector Cymru

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn croesawu eich adborth. I anfon sylwadau neu wybodaeth atom, trowch at:

www.btp.police.uk

HEDDLU
TRAFNIDIAETH
PRYDEINIG

Cyswllt Ardal Sector Cymru:
Prif Uwcharolygydd Peter Davies,
Comander Ardal Sector Cymru
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
Pencadlys Ardal Cymru a'r Gorllewin
1st Floor, The Axis
10 Holliday Street
Birmingham B1 1UP

Cyswllt cenedlaethol:
Michael Furness
Pennaeth Datblygu Strategol
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
Force Headquarters
25 Camden Road
Llundain NW1 9LN

michael.furness@btp.pnn.police.uk